Annwyl Gwsmer

**Newidiadau i Wasanaethau Symudol Rhyd-y-fro**
**Yn cael effaith ar Carwe, Pont-iets, Pont-Henri, Bancffosfelen, Pontneddfechan, Y Coelbren, Ynys-wen, Glan-rhyd, Cilmaen-gwyn, Pen-bre, Llangennech, Dyffryn Rhondda, Pen-y-waun, Resolfen, Glyncorrwg**

Rydym yn falch dros ben yn rhoi gwybod i chi ein bod yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau Carwe, Pont-iets, Pont-henri a Bancffosfelen, gan dechrau ar 6 Medi 2023.

Ers i'r gwasanaethau uchod gau, rydym wedi parhau i geisio cael hyd i ffordd o adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau lleol. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno Gwasanaeth Symudol, sydd yn ffordd gyfarwydd o gynnal gwasanaeth i gymunedau bach. Mae Gwasanaeth Symudol yn Swyddfa Bost deithiol mewn cerbyd pwrpasol sy'n dod â gwasanaethau a nwyddau manwerth Swyddfa'r Post i gymunedau heb ddibynnu ar adeilad parhaol.

Felly, mae'n dda gennym ddweud wrthych fod y postfeistr o Swyddfa Bost Rhyd-y-fro yn fodlon cynnig gwasanaethau i'r lleoliadau uchod. Trwy gyfrwng gwasanaethau symudol yw'r ffordd orau o adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r cymunedau hyn.

Er mwyn gallu cynnal y Gwasanaethau Symudol newydd, bydd rhai newidiadau'n cael eu gwneud i oriau agor presennol Pontneddfechan, Y Coelbren, Ynys-wen, Glan-rhyd, Cilmaen-gwyn, Pen-bre, Llangennech, Dyffryn Rhondda, Pen-y-waun, Resolfen a Glyncorrwg, sydd hefyd o dan ofal y postfeistr o Swyddfa Bost Rhyd-y-fro. Bydd y newidiadau i'r gwasanaethau hyn yn dechrau o 4 Medi 2023. Mae manylion pellach am y newidiadau i'r gwasanaethau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i rannu'r newyddion da â'n cwsmeriaid. Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau am y newidiadau hyn, at y Tîm Ymgynghori Cenedlaethol; mae'r manylion isod.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae datganiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Fiona Shanahan*

**Fiona Shanahan**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni:**
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**Mae yna adegau pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

**Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd:**

**Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Carwe**
Maes parcio Neuadd Lês Carwe
Cydweli
SA17 4HE

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 12:45 – 13:45 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un gwasanaethau ar gael.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.

**Cyrraedd yno**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Pont-iets**
Maes Parcio gyferbyn a'r Ganolfan Lês
Heol y Meinciau
Pont-iets
Llanelli
SA15 5TR

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 13:50 – 14:50 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un gwasanaethau ar gael.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.

**Cyrraedd yno**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Pont-henri**
Maes Parcio Neuadd Lês Pont-henri
Teras Bargod
Pont-henri
Llanelli
SA15 5PW

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 14:55 – 15:45 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un gwasanaethau ar gael.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.

**Cyrraedd yno**

Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Gwasanaeth Swyddfa Bost Symudol Bancffosfelen**
Ger Neuadd Y Pentref Bancffosfelen
Bancffosfelen
Llanelli
SA15 5DR

**Yr oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 16:00 – 17:00 |

**Cyrraedd yno**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

**Gwasanaethau**
Bydd yr un gwasanaethau ar gael.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau.

**Manylion am y newid i'r Gwasanaethau Symudol presennol:**

**Gwasanaeth Symudol Pontneddfechan, Ar y ffordd wrth ymyl 13 Y Stryd Fawr, Pontneddfechan, Castell-Nedd, SA11 5NP**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:00 -13:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 11:45 – 12:45 |

**Gwasanaeth Symudol Y Coelbren, Neuadd Lês y Glowyr, Bachygwreiddyn, Y Coelbren Castell-nedd, SA10 9NB**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:15 – 14:15 |
| Dydd Iau | 13:00 -14:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:00 -14:00 |
| Dydd Iau | 12:45 – 13:45 |

**Gwasanaeth Symudol Ynys-wen, Cilfan Wrth Ymyl 18 Cribarth, Ynys-wen, Abertawe, SA9 1YU**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 14:30 -15:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 14:15 – 15:15 |

**sanaeth Symudol Glan-rhyd, Ar yr heol gyferbyn ag 1 Rhodfa Gough,Ystradgynlais, SA9 1AW**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 14:15 -15:15 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 14:00 – 15:00 |

**Gwasanaeth Symudol Cilmaen-gwyn, Ar yr heol Wrth Ymyl 79 Tanydarren, Cilmaen-gwyn, Pontardawe SA8 4QR**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 15:30 – 16:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 15:15 – 16:15 |

**Gwasanaeth Symudol Pen-bre, Maes Parcio Eglwys Sant Illtyd Sgwâr Randell, Pen-bre, SA16 0UA**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 11:45 – 12:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 11:30 – 12:30 |

**Gwasanaeth Symudol Llangennech, Neuadd Y Pentref Llangennech**
**Heol Hendre, Llangennech, Llanelli, SA14 8TH**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 13:15 – 14:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:00 – 10:00 |

**Gwasanaeth Symudol Dyffryn Rhondda, Heol-yr-afael ,**
**Dyffryn Rhondda, Port Talbot, SA13 3EU**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:30 – 10:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:30 – 11:30 |

**Gwasanaeth Symudol Pen-y-waun, Ger y Siopau ar Heol Bryn Gwyn**
**Pen-y-waun, CF44 9HD**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 10:45 – 11:45 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 13:30 – 14:30 |

**Gwasanaeth Symudol Resolfen, Y Maes Parcio oddi ar Lyons Place, Resolfen**
**Castell-nedd, SA11 4ND**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:30 – 16:30 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:45 – 16:45 |

**Gwasanaeth Symudol Glyncorrwg. Y tu allan i Siop Premier, Stryd Dunraven,**
**Glyncorrwg, SA13 3AD**

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:30 – 14:00 |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:45 – 12:45 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori -* postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk.**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.